

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A479 (CWM-
DU, TRETŴR A PHARC GLAN-WYSG,
POWYS) (FFORDD GYFYNGEDIG, TERFYNAU
CYFLYMDER 30 MYA, 40 MYA A 50 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Yn rhinwedd dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Tretŵr a Chwm-du, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1996 (O.S. 1996/1574), bydd y Gorchymyn arfaethedig yn ailgyflwyno'r statws ffordd gyfyngedig drwy bentref Tretŵr ac yn dirymu'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya. Bydd hefyd yn cyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya ym mhob pen o'r pentref lle nad oes statws ffordd gyfyngedig yn rhinwedd goleuadau stryd, yn cadw'r terfyn cyflymder o 40 mya drwy bentref Cwm-du (gyda disgrifiad diwygiedig yn y Gorchymyn i gyd-fynd â'r arwyddion presennol) ac yn cyflwyno terfyn cyflymder o 50 mya wrth ddynesu at bentref Tretŵr o gyfeiriad y de o'i chyffordd â'r A40 wrth Barc Glan-wysg.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 26 Ionawr 2023 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, Llyfrgell Crughywel, Silver Street, Crughywel, Powys NP8 1BJ (gwiriwch yr oriau agor cyn ymweld), eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y Gangen Orchymynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1500780.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1500780, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchymynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i'r Gangen Orchymynion yn y cyfeiriad isod erbyn 16 Chwefror 2023. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond

**THE A479 TRUNK ROAD (CWMDU,
TRETOWER AND GLANUSK PARK, POWYS)
(RESTRICTED ROAD, 30 MPH, 40 MPH AND
50 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 82(1) and (2), 83(1), 84(1)(a) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

By virtue of the revocation of the A479 Trunk Road (Tretower and Cwmdu, Powys) (40 mph Speed Limit) Order 1996 (S.I. 1996/1574) the proposed Order will re-introduce the restricted road status though the village of Tretower and revoke the current 40 mph speed limit. It will also introduce a 30 mph speed limit at either end of the village, where there is no restricted road status by virtue of street lighting, retain the 40 mph speed limit through the village of Cwmdu (with an amended description within the Order to match the current signage) and introduce a 50 mph speed limit on the southern approach to the village of Tretower from its junction with the A40 at Glanusk Park.

During a period of 21 days from 26 January 2023 a copy of this Notice, the proposed Order, plan and Statement of Reasons for the making of the Order may be inspected, free of charge, at Crickhowell Library, Silver Street, Crickhowell, Powys NP8 1BJ (check opening times before visiting), viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or obtained free of charge from Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1500780.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1500780, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch at the address below by 16 February 2023. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process of consulting we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1500780.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhretŵr sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0496 i gyfeiriad de-ddwyreiniol hyd at bwynt 7 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0496.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhretŵr sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C0115 i gyfeiriad de-ddwyreiniol hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0491.

ATODLEN 2

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghwm-du sy'n ymestyn o bwynt 155 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C112 i gyfeiriad gogleddol hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C112.

ATODLEN 3

Y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r de-ddwyrain o Dretŵr sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0491 i gyfeiriad de-ddwyreiniol i'w chyffordd â'r A40 ym Mharc Glan-wysg.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1500780.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1

That length of the trunk road at Tretower that extends from a point 65 metres north-west of the centre point of its junction with the U0496 county road in a south-easterly direction to a point 7 metres north-west of the centre point of its junction with the U0496 county road.

That length of the trunk road at Tretower that extends from a point 25 metres south-east of the centre point of its junction with the C0115 county road in a south-easterly direction to a point 75 metres south-east of the centre point of its junction with the U0491 county road.

SCHEDULE 2

That length of the trunk road at Cwmdu that extends from a point 600 metres south of the centre point of its junction with the C112 county road in a northerly direction to a point 135 metres north of the centre point of its junction with the C112 county road.

SCHEDULE 3

That length of the trunk road southeast of Tretower that extends from a point 75 metres south-east of the centre-point of its junction with the U0491 county road in a south-easterly direction to its junction with the A40 at Glanusk Park.

